WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin 2018

Meddalwedd a Rhaglenni Cyfrifyddu

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 08 Mehefin 2018 pan wnaethoch ofyn am wybodaeth mewn perthynas â Meddalwedd a Rhaglenni Cyfrifyddu.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi amlinellu ein hymatebion cyfatebol.

1. Pa feddalwedd cyfrifyddu ariannol ydych yn ei defnyddio?

Infor SunSystems

2. Pwy sy'n darparu eich meddalwedd cyfrifyddu ariannol (enw'r gwerthwr neu'r cyflenwr)?

Castle Computer Services Ltd

3. Beth oedd y dyddiad archebu gwreiddiol neu'r dyddiad dechrau'r contract ar gyfer eich meddalwedd cyfrifyddu?

Llofnodwyd y contract 16 Tachwedd 2017, ar waith o 1 Ebrill 2018.

4. Beth yw dyddiad adnewyddu'r contract neu'r dyddiad terfynu ar gyfer eich meddalwedd gyfrifyddu?

16 Tachwedd 2021

5. Os yw'n berthnasol, beth yw cost cymorth a chynnal blynyddol (blwyddyn ariannol ddiwethaf Ebrill 2016 - Mawrth 2017) am eich meddalwedd gyfrifyddu?

Ddim yn berthnasol i'r contract hwn. Y gost yn 2016-17 oedd £22,225 am y feddalwedd flaenorol.

6. A yw eich TG yn fewnol neu'n cael ei chontractio'n allanol. Os caiff ei chontractio'n allanol, pwy sydd â'r contract, a phryd ydych chi'n disgwyl adnewyddu'r contract hwn?

Mewnol

7. Allech chi gadarnhau a oes unrhyw gymwysiadau (systemau cyfrifiadurol) gan eich sefydliad sy'n rhedeg ar system weithredu VME Fujitsu (ICL yn flaenorol)?

Nid oes gennym gymwysiadau o'r fath

8. Os oes gennych raglenni o'r fath, rhestrwch eu henwau a'u prif swyddogaeth o fewn eich sefydliad?

Ddim yn berthnasol

9. A wnewch chi gadarnhau hefyd a oes gennych gymwysiadau:

a) Yn gweithredu ar unrhyw lwyfan etifeddol arall megis OpenVME, IBM iSeries neu a ysgrifennwyd mewn cod etifeddol megis Powerbuilder, COBOL ac ati?

b) Unrhyw system gyfrifiadurol yr ystyrir ei bod yn ddrud neu'n (dechnegol) heriol o ran galluogi trawsnewid digidol?

c) Sy'n hanfodol i'r busnes ond mewn perygl o ganlyniad i brinder personél cymorth sy'n heneiddio neu ddogfennau cyfyngedig?

Nid oes gennym unrhyw gymwysiadau o'r fath

10. Cadarnhewch a yw'r cymwysiadau hyn wedi cael eu datblygu'n fewnol h.y. cawsant eu creu'n bwrpasol i'ch sefydliad ac rydych yn berchen ar y cod ffynhonnell.

Ddim yn berthnasol

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau am sut yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir,